Independent Office for Police Conduct
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Hysbysiad Preifatrwydd

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid - Sut ydyn ni'n prosesu eich data personol

Pwy ydyn ni

Sefydlwyd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)[1] i oruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac i gynnal hyder y cyhoedd yn y system.[2] Amlinellir ein pwerau a'n dyletswyddau yn bennaf yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002 (PRA) a rheoliadau cysylltiedig.[3] Rydym yn:

- ymchwilio'n annibynnol i farwolaethau ac anafiadau difrifol yn dilyn ymddygiad yr heddlu a'r honiadau mwyaf difrifol a sensitif o gamymddwyn yn erbyn y rheini sy'n gweithio i'r heddlu. Mae hyn yn cynnwys swyddogion, staff, cwnstabliaid arbennig a chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau i'r heddlu. Lle fo'n briodol, gallai hyn fod yn ymchwiliad troseddol
- goruchwylio ymchwiliadau a gynhelir gan heddluoedd i honiadau o gamymddygiad yn erbyn y rheini sy'n gweithio i'r heddlu (lle'r ydym wedi penderfynu peidio â'u hymchwilio yn annibynnol.)
- cyfeirio heddluoedd i gynnal achosion camymddwyn i berson/pobl sy'n gweithio i'r heddlu, lle fo'n briodol
- pennu apeliadau gan aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn fodlon â'r ffordd y mae'r heddlu wedi delio â'u cwyn
- defnyddio dysg o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona a hyrwyddo arfer gorau. Fe wnawn hyn trwy waith allgymorth gyda rhanddeiliaid allanol, gwneud datganiadau cyhoeddus, gwneud argymhellion sefydliadol, cyflawni ymchwil, dadansoddi a chasglu ystadegau er mwyn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau thematig

Mae gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar gael ar ein gwefan.

Esbonia'r hysbysiad hwn sut a pham y mae IOPC yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi.

Pam ein bod ni'n prosesu gwybodaeth amdanoch chi

Mae'r IOPC yn ymrwymedig i barchu a diogelu eich preifatrwydd. Mae'r IOPC yn casglu, yn prosesu ac yn rhannu gwybodaeth bersonol er mwyn ymgymryd â'n swyddogaethau. Os ydym yn

[1] Y Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu gynt. Sefydlwyd yr IOPC ar 8 Ionawr 2018.
[2] Rydym hefyd yn goruchwylio'r system gwynion ar gyfer sefydliadau eraill, megis CThEM, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, ac Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur.
[3] Y rheoliadau allweddol sy'n llywodraethu'r hyn yr ydym yn ei wneud yw Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 a Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2012.

prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, rydych chi'n "destun data". Isod y mae rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r categorïau testunau data y gallem brosesu gwybodaeth yn eu cylch:

- achwynwyr
- gwrthrychau neu rai a amheuir (h.y. y bobl y mae eu hymddygiad wedi bod dan ymchwiliad)
- tystion
- unigolion â diddordeb[4]
- dioddefwyr neu oroeswyr
- y cyhoedd
- unigolyn yn gweithredu ar ran heddlu neu wrthrych data arall
- arbenigwyr
- gweithwyr meddygol
- academydd sy'n ymgymryd ag ymchwil
- comisiynydd heddlu a throseddu neu gyfwerth neu aelod o'i staff
- Aelod Seneddol
- cynrychiolydd grŵp â diddordeb neu elusen
- newyddiadurwr
- crwner neu aelod o'i staff
- barnwr neu aelod o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
- cynrychiolydd o gorff cyhoeddus arall neu adran llywodraeth

Rydym yn casglu ac yn cadw data personol sy'n berthnasol i'r materion yr ydym yn ymchwilio iddynt, i benderfyniad apêl neu i unrhyw un o'n swyddogaethau a ddisgrifir uchod. Byddwn yn rhannu'r data hwn gyda thrydydd partïon yn ôl yr angen (gweler adran "Gyda phwy y byddwn ni'n rhannu'ch data" isod).

Rydym yn defnyddio'ch data personol i gyfathrebu gyda chi ac i fonitro presenoldeb mewn gweithgareddau ymgysylltu a chymryd rhan ynddynt gan gynnwys galwadau, a chynadleddau fideo. Rydym hefyd yn ei ddefnyddio i geisio adborth gan y rheini sydd wedi'u heffeithio gan ein gwaith i'n helpu ni i wneud gwelliannau. Lle fo'n bosibl, byddwn yn darparu'r data yn ddienw. Rydym hefyd yn sicrhau ac yn prosesu data personol ar gyfer rhwymedigaethau statudol a chyfreithiol eraill, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth dan ddeddfwriaeth diogelu data ac unrhyw ymchwiliadau neu achosion dilynol
- ymateb i geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ac unrhyw ymchwiliadau neu achosion dilynol.
- mewn cysylltiad â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- mewn cysylltiad â'n dyletswyddau o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Math o wybodaeth bersonol y gallem ei chasglu a'i phrosesu

Data personol

Cyfeiria data personol at unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn byw wrtho. Gall y dull adnabod fod trwy wybodaeth yn unig neu ar y cyd â gwybodaeth arall.

Gallai'r data personol yr ydym yn ei gasglu amdanoch chi gynnwys, ond heb ei gyfyngu i: enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill (e.e. e-bost a rhifau ffôn), rhyw, statws priodasol, dyddiad a man

[4] Fel arfer mae "unigolyn â diddordeb" yn aelod o deulu unigolyn sydd wedi marw neu ei anafu'n ddifrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu, ond fe allai fod yn unrhyw un y mae'r IOPC yn ystyried sydd â diddordeb digonol yn y mater dan ymchwiliad.

geni, cenedligrwydd, cyflogwr, teitl swydd a hanes cyflogaeth, eich manylion cofrestru car, delweddau ohonoch chi gan gynnwys ffotograffau a lluniau teledu cylch cyfyng, rhai recordiadau galwadau a fideo, dynodwr ar-lein.

Data categori arbennig

Mae gan rai categorïau data personol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol wrth gael eu prosesu. Y categorïau hyn yw: data am eich iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig, barnau gwleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur, data genetig, data biometreg neu ddata yn ymwneud â'ch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gallai'r data categori arbennig a gasglwn amdanoch chi gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: eich hil neu darddiad ethnig ac/neu gredoau crefyddol, eich aelodaeth o undeb llafur, eich credoau gwleidyddol, eich bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae llawer o'r data categori arbennig yma yn ddata nad ydym yn ei geisio'n weithredol gan ein rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae'n bosibl wrth ymgysylltu gyda rhanddeiliaid y darperir yr wybodaeth hon i ni.

Data trosedd

Mae gan brosesu data troseddol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol hefyd. Mae data trosedd yn cynnwys gwybodaeth am honiadau troseddol, troseddau, achosion troseddol ac euogfarnau troseddol. Ni fydd y tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn gwneud ymgais weithredol i gaffael eich data troseddau.

Ein sail gyfreithiol dros brosesu'ch data

Fel corff cyhoeddus, mae'n angenrheidiol i ni brosesu eich data personol er mwyn cyflawni ein swyddogaethau dan y PRA. Cynhelir y swyddogaethau hyn er budd i'r cyhoedd.[5] Os yw'r data yn arbennig o sensitif neu'n perthyn i droseddau ni fyddwn yn ei brosesu oni bai ei fod yn angenrheidiol oherwydd budd sylweddol i'r cyhoedd sy'n deillio o gynnal hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu. [6]

Gyda phwy y byddwn ni'n rhannu'ch data

Mae gofyn i ni rannu'ch data gyda thrydydd partïon pan fydd gennym rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill ac adrannau llywodraeth er mwyn hwyluso defnyddio'u swyddogaethau statudol neu gyhoeddus eraill. Y categorïau o bobl yr ydym yn rhannu'ch data personol â hwy yw:

- y Coleg Plismona
- cyrff y llywodraeth
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- cyrff rheoleiddio neu ombwdsmyn, gan gynnwys HMICFRS, HMIP, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- cynghorwyr proffesiynol, arbenigwyr ac ymgynghorwyr

[5] Erthygl 6(1)(e) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol; adran 8 Deddf Diogelu Data 2018.
[6] Erthygl 9(2)(g) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol; a.10 a rhan 2 (6) atodlen 1, Deddf Diogelu Data 2018.

Penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio

Ar hyn o bryd, nid yw'r Tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn cyflawni unrhyw benderfyniadau awtomataidd parthed eich data personol.

Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw'ch data

Mae gan IOPC amserlen cadw a gwaredu, sy'n rhestru'r data yr ydym yn ei gadw ac am ba mor hir. I weld am ba mor hir fyddwn ni'n cadw'ch data, gweler ein hamserlen cadw a gwared yma.

Eich hawliau mewn perthynas â'r data yr ydym yn ei gadw

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o hawliau i chi yn ymwneud â'ch data personol. Mae'r hawliau hyn yn amodol ar rai eithriadau penodol. Gallai'ch hawliau gynnwys:

- yr hawl i gael mynediad at eich data
- yr hawl i gael eich data wedi'i gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn
- yr hawl i geisio cyfyngiadau i brosesu'ch data
- yr hawl i wrthwynebu i'ch data gael ei brosesu
- yr hawl i gael eich data wedi'i ddileu
- yr hawl i gael eich hysbysu am sut y mae'ch data yn cael ei brosesu
- hawliau yn ymwneud â phenderfyniadau wedi'u hawtomeiddio a chludadwyedd data

Dylech ein hysbysu ni o unrhyw newidiadau i'ch gwybodaeth er mwyn i ni allu bod yn hyderus bod y data yr ydym yn ei gadw amdanoch chi yn gywir.

Er mwyn deall mwy am yr hawliau hyn a sut i'w defnyddio, gweler ein gwefan.

Ein Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data

Ein rheolydd data yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Y rheolydd data sydd â'r rheolaeth gyffredinol dros ddiben a'r modd yr ydym yn casglu a phrosesu data personol.

Mae gan yr IOPC Swyddog Diogelu Data dynodedig a Thîm Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am ddefnyddio'ch hawliau data neu'r ffordd yr ydym yn casglu, yn trin neu'n prosesu'ch data, cysylltwch â'r tîm naill ai trwy'r dudalen cysylltu â ni ar ein gwefan neu trwy anfon e-bost at dpo1@policeconduct.gov.uk.

Neu gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Eich hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych chi'n anfodlon ag unrhyw agwedd o'r ffordd yr ydym wedi prosesu'ch data personol, mae gennych yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF
www.ico.org.uk
Ffôn: 0303 123 1113
casework@ico.org.uk

Adborth neu gwynion am ein gwasanaeth neu staff

Os dymunwch chi roi adborth neu gwyno am ein gwasanaeth neu staff, cysylltwch â'n Huned Ymchwilio Mewnol naill ai trwy dudalen cysylltwch â ni ein gwefan neu trwy anfon e-bost at IIU@policeconduct.gov.uk.

Fel arall gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener neu adael neges unrhyw bryd ar 0207 166 3261.

Adolygu'r hysbysiad hwn

Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac fe allai gael ei ddiwygio. Ymwelwch â'n gwefan yma i wirio am unrhyw ddiweddariadau.

Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg. Os hoffech i'n gohebiaeth â chi fod yn Gymraeg, rhowch wybod inni.
Pe byddwch yn cysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg, ac ni fydd hyn yn achosi oedi yn ein hymateb.